

PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | Adran y Gwyddorau Bywyd

Astudiaethau israddedig mewn

# Amaethyddiaeth, Gwyddor Anifeiliaid a Cheffylau

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Croeso | t.1 |
| Ein cyrsiau | t.2 |
| Blwyddyn integredig mewn diwydiant | t.14 |
| Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg | t.16 |
| Ymchwil | t.17 |
| Uchafbwyntiau ymchwil | t.18 |
| Cyfleoedd byd-eang | t.20 |
| Y broses ymgeisio | t.21 |


**Yn y 2 uchaf yn y Deyrnas Unedig**

ym maes Amaethyddiaeth

(Canllaw Prifysgolion Da 2025, The Times a'r Sunday Times)

THE TIMES THE SUNDAY TIMES
CANLLAW PRIFYSGOLION DA 2024
PRIFYSGOL Y FLWYDDYN YNG NGHYMRU

**Gwybodaeth bwysig**

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir am y rhaglenni gradd yn y llyfryn hwn yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Gorffennaf 2025), ond fe allai newid. Cynghorir darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs, gan gynnwys ein gofynion mynediad, cyn gwneud cais, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.





# Croeso

Croeso i'r Adran Gwyddorau Bywyd, canolfan ymchwil ac addysg o safon fyd-eang yma ym Mhrifysgol Aberystwyth, sydd a hanes hirhoedlog o ragoriaeth ymchwil ym maes amaethyddiaeth, gwyddor anifeiliaid a gwyddor ceffylau.

Rydym yn darparu amgylchedd dysgu eithriadol ar gyfer eich datblygiad academaidd a phersonol, gyda'r cyfleusterau diweddaraf ac ysgoloriaethau hael. Bydd darlithwyr ymroddgar ac ysbrydoledig yn dod â'ch cwrs yn fyw, gyda llawer o'n haddysgu'n cael ei arwain gan ddiddordebau ymchwil blaengar ein staff.

Gallwn gynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu i chi, yn cynnwys darlithoedd a seminarau rhyngweithiol, dosbarthiadau labordy, grwpiau tiwtorial bach, ac ymweliadau â ffermydd, sefydliadau ymchwil a busnesau amaeth ledled y Deyrnas Unedig. Cewch eich asesu mewn amrywiol ffyrdd, yn cynnwys arholiadau, adroddiadau labordy, cyflwyniadau a thraethodau, gyda'r cyfan wedi'i gynllunio i gyfoethogi eich setiau sgiliau penodol i'r pwnc, sgiliau personol a throsglwyddadwy. Mae'r flwyddyn gyntaf o astudio'n gyffredin ar gyfer ein holl gyrsiau amaethyddiaeth sy'n rhoi hyblygrwydd i chi gyfnewid rhwng cyrsiau amaethyddiaeth ar ddiwedd eich blwyddyn gyntaf yn Aberystwyth os hoffech.

Mae Aberystwyth ar lannau bae Ceredigion ar arfordir gorllewin Cymru, mewn amgylchedd naturiol syfrdanol. Mae'r ardal yn cynnig morlin gwych ynghyd ag eangderau o weundir a dyffrynnoedd coediog, sy'n darparu cyfleoedd unigryw ar gyfer gwaith maes. Mae ein cyrsiau amaethyddiaeth yn defnyddio ffermydd y Brifysgol yn helaeth, sy'n ymestyn i dros 800 hectar ac sy'n cynrychioli sbectrwm cyflyrau tyfu'r DU. Mae ein mentrau yn cynnwys diadelloedd o ddefaid masnachol ac o dras, buches odro sy'n cael eu godro'n robotig, uned amnewid heffrod godro, uned besgi cig eidion, a chynhyrchu âr sy'n canolbwyntio ar borthiant cartref gan gynnwys haidd, gwenith a cheirch. Mae Canolfan Geffylau Lluest yn cynnig arenâu dan do ac awyr agored o faint rhyngwladol, padogau pori ac 20 o stablau i unigolion sydd am gadw eu ceffyl eu hun yno.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein cyrsiau a chyfleoedd eraill yn y llyfryn hwn. Ymunwch â ni ar Ddiwrnod Agored neu Ddiwrnod Ymweld i Ymgeiswyr i gael golwg ar yr hyn sy'n gwneud Aberystwyth yn lle mor anhygoel i astudio.

**Yr Athro Iain Barber**
**Pennaeth Adran**

# Ein cyrsiau

## Anrhydedd sengl


| | |
|---|---|
| Amaethyddiaeth | t.3 |
| Amaethyddiaeth (Gradd Sylfaen) | t.4 |
| Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid | t.6 |
| Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes | t.7 |
| Bioleg Planhigion | t.8 |
| Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol | t.10 |
| Biowyddorau Milfeddygol | t.12 |
| Gwyddor Anifeiliaid | t.13 |


## Rydym yn hefyd cynnig:

- Biocemeg
- Bioleg
- Bioleg y Môr a Dŵr Croyw
- Cadwraeth Bywyd Gwyllt
- Ecoleg
- Geneteg
- Gwyddoniaeth Fiofeddygol
- Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff
- Gwyddor Iechyd (Maeth ac Ymarfer Corff)
- Microbioleg
- Sŵoleg
- Ymddygiad Anifeiliaid



# Amaethyddiaeth

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | H21Y | 3 blynedd

Ym Mhrifysgol Aberystwyth mae gennym enw da ers amser maith am ein haddysgu a'n hymchwil ym maes Amaethyddiaeth. Wrth astudio yn yr Adran Amaethyddiaeth, byddwch yn magu ystod eang o sgiliau, ac yn ategu'ch astudiaethau academaidd yn y brifysgol drwy ymweld yn rheolaidd â ffermydd masnachol a busnesau. Trwy hynny, byddwch yn dysgu am y datblygiadau diweddaraf gan wyddonwyr blaengar ym maes ymchwil amaethyddol.

Her fyd-eang sy'n wynebu Amaethyddiaeth yw bwydo poblogaeth gynyddol yn erbyn cefndir o adnoddau sy'n lleihau, ynghyd â'r angen i ddiogelu'r amgylchedd, ac i ymdopi â newid yn yr hinsawdd a'i liniaru. Mae amaethyddiaeth yn wynebu blaenoriaethau newydd yn agosach i gartref hefyd, wrth i'r Deyrnas Unedig ailddiffinio ei pherthynas ag Ewrop. Ar y radd hon byddwch yn cwmpasu pob agwedd ar amaethyddiaeth, a hefyd yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae byd amaeth yn newid. Byddwch hefyd yn dysgu'r sgiliau ymarferol sydd eu hangen i reoli busnes cynaliadwy. Gyda gradd mewn Amaethyddiaeth, gallwch fabwysiadu'r arferion gorau sy'n ymgorffori'r ymchwil gyfredol orau oll, a bydd hynny'n eich galluogi i ymdrin â heriau rheoli da byw a chnydau a sicrhau'r canlyniadau gorau i'ch busnes amaethyddol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan arbenigwyr ac ymchwilwyr blaenllaw yn eu maes addysgu
- ymweliadau â ffermydd, sefydliadau ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- y cyfle i gwblhau blwyddyn profiad gwaith gyda chymorth tiwtor i ddatblygu sgiliau a gwella cyfleoedd gyrfa.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth
- Farm Planning and Advanced Farm Management.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **H22Y** | Cynllun atodol |
| **D401** | Blwyddyn mewn diwydiant |
| **D404** | Meistr Integredig. |

# Amaethyddiaeth

67% ar gael drwy'r **Gymraeg**

## FdSc - Gradd Sylfaen | D402 | 2 flynedd

Mae'r radd hon yn ddewis rhagorol i unrhyw un sydd eisiau hyfforddi fel rheolwr menter amaethyddol, neu ailhyfforddi a dilyn gyrfa ym maes amaeth yn y dyfodol. Bydd myfyrwyr sy'n cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus ac i'r safon angenrheidiol yn gallu symud ymlaen i'n gradd anrhydedd Amaethyddiaeth.

Ar y cwrs hwn byddwn yn eich herio drwy gyflwyno i chi sefyllfaoedd bywyd go iawn, lle byddwch yn astudio cyfuniad o wyddoniaeth, technoleg a rheolaeth fferm i archwilio a deall y ffordd mae dulliau amaethyddol modern yn cynhyrchu bwyd mewn modd cynaliadwy ac yn sicrhau elw i'r busnes fferm. Byddwch yn cwmpasu pob agwedd ar systemau cynhyrchu amaethyddol, a hefyd yn datblygu dealltwriaeth fanwl o'r modd y mae'r diwydiant amaethyddol yn newid. Bydd y cwrs hefyd yn rhoi ichi'r sgiliau ymarferol a'r ddealltwriaeth ddamcaniaethol sydd eu hangen i reoli busnes cynaliadwy.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n arbenigwyr yn eu maes
- ymweliadau â ffermydd a busnesau amaethyddol ledled y DU yn rhan hanfodol o'r cynllun
- cyfleoedd am brofiad gwaith yn y DU a dramor.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Pwyntiau tariff UCAS:** 96-72
**BR:** 26-24.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

Wedi ichi gwblhau'r cwrs ar y lefel ofynnol, byddwch yn barod i ymuno â blwyddyn olaf un o'n graddau BSc Amaethyddiaeth.

**Ar gael hefyd:**
**D403** Blwyddyn mewn diwydiant.





# Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | 53C8 | 3 blynedd

Tra'n astudio Amaethyddiaeth gyda Gwyddor Anifeiliaid, byddwch yn elwa o gael eich dysgu gan ymchwilwyr sy'n weithgar ym maes clefydau, maeth, atgenhedlu ac ymddygiad anifeiliaid, ymhlith meysydd eraill, ac yn elwa hefyd o'n hamrywiaeth o labordai addysgu ac ymchwil.

Mae Adran y Gwyddorau Bywyd yn gartref i VetHub1, cyfleuster ymchwil i iechyd anifeiliaid a bioddiogelwch sy'n ymchwilio i dwbercwlosis mewn gwartheg, yn ogystal â Chanolfan Barrett ar gyfer Rheoli Llyngyr, canolfan ymchwil ryngddisgyblaethol sy'n arwain y frwydr yn erbyn afiechydon llyngyr mewn da byw, megis llyngyren yr iau. Ar y cwrs hwn, byddwch yn datblygu sylfaen gref o sgiliau ymarferol a gwybodaeth ym maes amaethyddiaeth. Ynghyd â'r wybodaeth graidd yma, byddwch yn dysgu am wyddoniaeth, cynhyrchiant a rheolaeth dda byw, gan fanteisio ar ddysg ein hymchwilwyr gweithgar. O safbwynt gwyddor anifeiliaid, byddwch yn astudio agweddau ar faeth, ffisioleg atgenhedlu, iechyd a bridio anifeiliaid, yn ogystal â biodechnoleg anifeiliaid newydd. Gyda'r sgiliau yma'n gefn i chi, byddwch yn barod i wynebu heriau cynhyrchu da byw, ac yn barod i lwyddo yn eich busnes amaethyddol.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich dysgu gan wyddonwyr blaenllaw a chyfrannu at eu gwaith ymchwil
- ymweliadau â ffermydd, gorsafoedd ymchwil a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan
- cyfleoedd profiad gwaith yn y DU a thramor.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth
- Gwyddor Cynhyrchu Da Byw.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D4D3** Blwyddyn mewn diwydiant
**D4D4** Meistr Integredig.



# Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes

67% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | D4N2 | 3 blynedd

Mae Prifysgol Aberystwyth yn cynnal yr Arolwg Busnes Fferm flynyddol yng Nghymru ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r arolwg yn cyfuno data ariannol a ffisegol o tua 600 o ffermydd yng Nghymru ac yn rhoi gwybodaeth hanfodol i lunwyr polisïau ac ymchwilwyr ar y ffactorau economaidd sy'n effeithio ar ffermio yng Nghymru. O'r herwydd, mae ein staff mewn sefyllfa dda i roi hyfforddiant arbenigol ar reoli busnes, ochr yn ochr â'ch astudiaethau ym maes amaethyddiaeth.

Bydd Amaethyddiaeth gyda Rheoli Busnes yn rhoi ichi sylfaen drwyadl o sgiliau ymarferol a gwybodaeth ddamcaniaethol ym maes ffermio a masnach fel ei gilydd. Mae'r cynllun hwn yn addas i ymgeiswyr sydd heb gefndir amaethyddol, yn ogystal â rhai sydd â pheth gwybodaeth am amaethyddiaeth, gan ei fod yn rhoi gafael da ar systemau a gwyddor amaethyddiaeth ynghyd ag egwyddorion ac arferion busnes. Gydag opsiwn i dreulio blwyddyn mewn diwydiant, a mynediad at y busnesau amaethyddol a'r ffermydd masnachol niferus yn yr ardal ac yn ehangach, byddwch yn datblygu'r galluoedd a'r sgiliau craidd y mae cyflogwyr yn gofyn amdanynt ac sy'n angenrheidiol er mwyn rheoli eich busnes eich hun.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan staff arbenigol sy'n ymwneud â'r Arolwg Busnes Fferm yng Nghymru, y ffynhonnell fwyaf awdurdodol o wybodaeth ariannol am fusnesau fferm
- ymweliadau â ffermydd a busnesau amaethyddol drwy'r DU gyfan fel rhan hanfodol o'r cwrs
- cyfleoedd profiad gwaith yn y DU a thramor.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Technoleg Amaethyddol a Diogelwch Fferm
- Business, Economics and Land Use
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw
- Sgiliau ar gyfer y Diwydiant Amaethyddol.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomeg a Gwelliant Cnydau
- Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd.

**Y flwyddyn olaf:**

- Traethawd Estynedig neu Adolygiad Critigol
- Datblygiadau mewn Amaethyddiaeth
- Farm Planning and Advanced Farm Management.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol: Pwyntiau tariff UCAS:** 120-96
**BR:** 30-26.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**4D12** Blwyddyn mewn diwydiant.

# Bioleg Planhigion

57% ar gael drwy'r **Gymraeg**

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | C200 | 3 blynedd

Mae gan raddedigion Bioleg Planhigion gyfleoedd gyrfaol gwych, ac mae Prifysgol Aberystwyth yn lle delfrydol ar gyfer cam cyntaf eich gyrfa. Rydym yn gartref i raglenni bridio planhigion a gydnabyddir yn rhyngwladol ar gyfer gweiriau sy'n uchel o ran siwgr, adnoddau a chronfeydd data geneteg planhigion, gerddi botaneg, a'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion. Mae ein campws hefyd wedi'i leoli mewn cefn gwlad hardd a hygyrch sy'n gartref i amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau.

Trwy ddilyn y radd hon byddwch yn astudio pob agwedd ar fywyd planhigion, o'r moleciwlaidd i'r ecolegol, ac ar yr un pryd yn archwilio materion byd-eang sy'n ymwneud â phlanhigion. Byddwch yn ystyried sut y gall technoleg sy'n seiliedig ar blanhigion ein cynorthwyo i wynebu her poblogaeth ddynol sy'n tyfu a bygythiadau'r dyfodol, yn cynnwys diogelwch bwyd a newid yn yr hinsawdd.

Byddwch yn elwa o:

- gyfleusterau o safon fyd-eang gan gynnwys gerddi botaneg gydag amrywiaeth eang o blanhigion tymherus a throfannol, amrywiaeth eang o ystafelloedd tyfu a thai gwydr, ac amgueddfa o sbesimenau botanegol hanesyddol
- mynediad at y Ganolfan Ffenomeg Planhigion Cenedlaethol a'r posibilrwydd o ymwneud â'n rhaglenni bridio planhigion sy'n arwain y byd
- llu o gyfleoedd am waith maes, gan gynnwys y posibilrwydd o astudio fflora Tymherus, Trofannol ac Arctig-Alpinaidd
- cynefinoedd prydferth, gan gynnwys ecosystemau morol, rhostir, mynydd-dir, coetir a glaswelltir, yn cynnig amrywiaeth wych o waith maes a chyfleoedd hamdden.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Rheolaeth Cnydau, Glaswelltir, Priddoedd a Thir Amaethyddol
- Genetics, Evolution and Diversity
- Amrywiaeth Microbau a Phlanhigion
- Sgiliau ar gyfer Biolegwyr.

**Yr ail flwyddyn:**

- Agronomy and Crop Improvement
- Arolygu Ecolegol
- Climate Change: Plants, Animals and Ecosystems
- Dulliau Ymchwil.

**Y flwyddyn olaf:**

- Frontiers in Plant Science
- Microbial Pathogenesis
- Prosiect Ymchwil.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**

| | |
|---|---|
| **C201** | Blwyddyn sylfaen |
| **C202** | Blwyddyn mewn diwydiant |
| **C20F** | Blwyddyn mewn diwydiant gyda blwyddyn sylfaen. |



# Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol

25% ar gael drwy'r Gymraeg

## BSc (Anrh) | D334 | 3 blynedd

Biowyddor Ceffylau a Milfeddygol yn Aberystwyth yw'r unig radd o'i fath yn y DU. Mae'n manteisio ar enw da Aberystwyth fel darparwr cyrsiau ceffylau hirsefydlog, ein cryfderau ymchwil ym maes afiechyd, maeth, atgenhedlu ac ymddygiad anifeiliaid, a'n cysylltiadau cydweithredol â milfeddygon Canolfan Gwyddor Filfeddygol Cymru.

Bydd y radd hon yn rhoi ichi sylfaen gadarn o safbwynt cysyniadau craidd meddygaeth filfeddygol, gan gynnwys imiwnoleg, prosesau afiechydon, a gwneud diagnosis a thrin afiechydon mewn amryw o rywogaethau. Byddwch yn plethu'r wybodaeth ddamcaniaethol â'r sgiliau ymarferol a fydd yn rhoi pwyslais penodol ar ffisioleg y ceffyl. Bydd addysgu, gan gynnwys addysg gan filfeddygon, yn helpu i fframio eich dealltwriaeth o fewn y cyd-destun ymarferol. Bydd y cymysgedd unigryw hwn o ddeunydd pwnc yn eich helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen mewn rolau proffesiynol yn y diwydiant ceffylau, yn ogystal â gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â meddygaeth filfeddygol, fel diagnostegydd labordy milfeddygol.

Byddwch yn elwa o:

- cyfleusterau rhagorol, gan gynnwys canolfan fawr i ddysgu am geffylau, arenâu dan do ac awyr agored, cerddwr ceffylau, corlan gron, pont bwyso, solariwm, stablau a stablau penodol i eni ebolion gyda chamerâu, mannau arddangos, labordai a llawer mwy
- astudio mewn canolfan addysgu wedi'i chymeradwyo gan Gymdeithas Ceffylau Prydain (BHS).

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg.
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Dyma rai o'r modiwlau dewisol y gallwch eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol:

- Equine Industry and Study Tour
- Human, Equine and Canine Exercise Physiology and Locomotion
- Equine Nutrition and Pasture Management
- Equine Stud Management.

**Ar gael hefyd:**
**D33F** Blwyddyn sylfaen
**D335** Blwyddyn mewn diwydiant.





# Biowyddorau Milfeddygol

42% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | D906 | 3 blynedd

Mae ein gradd Biowyddorau Milfeddygol yn manteisio ar gryfder Aberystwyth yn y sector iechyd milfeddygol sydd wedi arwain at sefydlu Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth, sef yr unig Ysgol Filfeddygaeth yng Nghymru. Mae gennym gyfleusterau ar gyfer anifeiliaid mawr ar ein ffermydd masnachol a chanolfan ddysgu arbenigol ym maes ceffylau yn ogystal ag amrywiaeth o labordai i sicrhau eich bod yn ennill sgiliau ymarferol perthnasol.

Ar y radd hon byddwch yn cyfuno agweddau moleciwlaidd, cellol a ffisiolegol cyfoes er mwyn deall bioleg anifeiliaid fferm, anifeiliaid anwes, ceffylau ac anifeiliaid gwyllt. Bydd eich safbwynt ar iechyd ac afiechyd milfeddygol yn seiliedig ar ymchwil a bydd yn cael ei integreiddio â dealltwriaeth o realiti gwaith milfeddygol. Ymhlith sgiliau lu, byddwch yn dysgu sut i gymhathu gwybodaeth o lenyddiaeth wyddonol, craffu ar ddata o safbwynt ansoddol a meintiol, ymateb i ddata newydd trwy ymchwiliadau labordy, a deall goblygiadau'r canfyddiadau ar gyfer maes milfeddygaeth.

Byddwch yn elwa o:

- gael eich addysgu gan lawfeddygon milfeddygol ac ymchwilwyr milfeddygol o safon fyd-eang
- profiad ymarferol o drin anifeiliaid yn ein canolfan geffylau a'n ffermydd, gyda'r technegau gwyddonol diweddaraf a ddysgir yn ein labordai modern
- cyfleoedd i symud ymlaen i nifer o yrfaoedd milfeddygol gan gynnwys rhaglenni gradd gwyddor filfeddygol ar ôl cwblhau'r radd hon yn llwyddiannus.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau.

**Yr ail flwyddyn:**

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Behaviour and Welfare of Domesticated Animals
- Prosiect Ymchwil
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gallwch eu dewis er mwyn datblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 128-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D90F** Blwyddyn sylfaen
**D907** Blwyddyn mewn diwydiant.



# Gwyddor Anifeiliaid

47% ar gael drwy'r Gymraeg

Royal Society of Biology Accredited Degree

## BSc (Anrh) | D306 | 3 blynedd

Ar ein gradd Gwyddor Anifeiliaid, byddwch yn astudio'r wyddoniaeth gymhwysol sy'n ymwneud ag anifeiliaid dof, gan gynnwys anifeiliaid fferm, ceffylau ac anifeiliaid anwes. Fel cartref yr unig Ysgol Filfeddygol yng Nghymru (Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth), mae gennym gyfleusterau rhagorol i gefnogi eich astudiaethau, gan gynnwys ffermydd masnachol y brifysgol, canolfan addysgu ceffylau, ac ystod o labordai addysgu ac ymchwil. Mae ein staff addysgu hefyd yn ymchwilwyr gweithredol mewn meysydd fel clefydau heintus milfeddygol, maeth, atgenhedlu, ymddygiad a mwy.

Yn ystod eich astudiaethau byddwch yn datblygu dealltwriaeth o'r fioleg allweddol sy'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid dof, gan gynnwys anatomi, ffisioleg, maeth, gwneud diagnosis o afiechydon, ac ymddygiad. Byddwch hefyd yn gallu datblygu diddordeb penodol mewn gwyddor da byw, gwyddor ceffylau, neu wyddor ymddygiadol, trwy ddewis un o dri llwybr y radd. Bydd gan eich dealltwriaeth academaidd sylfaen gref yng nghyd-destun ymarferol a chymwysedig gwyddor anifeiliaid, a chaiff ei datblygu ymhellach gan ddarlithwyr gwadd o wahanol feysydd o'r diwydiant gwyddor anifeiliaid.

Byddwch yn elwa o:

- y gallu i arbenigo yn y llwybrau Ceffylau, Ymddygiadol, neu Dda Byw
- y cyfle i ddysgu trwy gyfuniad o ddosbarthiadau ymarferol, teithiau maes, dosbarthiadau tiwtorial mewn grwpiau bach, a darlithoedd rhyngweithiol, a fydd yn rhoi gafael gadarn i chi ar y pwnc.

## Modiwlau

Dyma'r modiwlau y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn.

**Y flwyddyn gyntaf:**

- Bioleg Celloedd
- Disease Diagnosis and Control
- Domestic Animal Anatomy and Physiology
- Genetics, Evolution and Diversity
- Sgiliau ar gyfer Biowyddonwyr Anifeiliaid, Ceffylau a Milfeddygol mewn Ffisioleg Ymarfer Corff Ceffylau
- Cyflwyniad i Systemau Cynhyrchu a Gwyddor Da Byw.

**Yr ail flwyddyn:**

- Animal Breeding: Genetics and Reproduction
- Dulliau Ymchwil
- Immunology
- Maeth Anifeiliaid Fferm, Ceffylau ac Anifeiliaid Anwes
- Veterinary Health.

**Y flwyddyn olaf:**

- Prosiect Ymchwil
- Veterinary Infectious Diseases
- Veterinary Pharmacology and Disease Control.

Ewch i'n gwefan i weld y modiwlau dewisol y gellir eu hastudio i ddatblygu eich diddordebau arbenigol.

## Ffeithiau Allweddol

**Cynnig nodweddiadol:**
**Pwyntiau tariff UCAS:** 120-104 gan gynnwys B Safon Uwch Bioleg
**BR:** 30-28 gyda 5 pwynt mewn Bioleg ar Lefel Uwch.

**Pwyslais marcio:** Fel rheol, 100% gwaith cwrs neu 40-60% gwaith cwrs a 60-40% arholiadau.

**Teithiau/gwaith maes:** Oes.

**Ar gael hefyd:**
**D30F** Blwyddyn sylfaen
**D307** Blwyddyn mewn diwydiant.

# Blwyddyn integredig mewn diwydiant

Os ydych chi'n dymuno ehangu eich gorwelion a chael blas o'r gweithle neu brofi gyrfa drwy leoliad gwaith, bydd y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn cryfhau ac yn gwella eich cyfleoedd gyrfa ar ôl graddio. Mae'r rhan fwyaf o'n cyrsiau anrhydedd sengl ar gael gyda'r opsiwn o gael blwyddyn integredig mewn diwydiant.

Cynhelir y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn eich trydedd flwyddyn ac yna byddwch yn dychwelyd i Aberystwyth i gwblhau eich gradd yn y bedwaredd flwyddyn. Caiff y flwyddyn ei hasesu ac mae'n cyfrannu at farc terfynol eich gradd.

## Manteision:

- Mwy cyflogadwy wrth raddio
- Mwy tebygol o gael cyflog cychwynnol uwch
- Mwy tebygol o sicrhau swydd ar lefel gradd.

## Mae ein myfyrwyr wedi nodi manteision ychwanegol:

- Dod i wybod beth hoffech chi ei wneud mewn gwirionedd ar ôl graddio
- Profiad gwych – archwilio maes newydd a all fod dramor
- Gwneud eich blwyddyn olaf yn haws
- Datblygu eich rhwydweithiau cymdeithasol a phroffesiynol.

Gall ceisiadau a chyfweliadau gymryd llawer o amser a byddwch yn graddio flwyddyn yn hwyrach na'ch ffrindiau yn y brifysgol, ond mae manteision y flwyddyn integredig mewn diwydiant yn bendant yn gorbwyso'r anfanteision.

## Pa gymorth sydd ar gael?

- Ceir cymorth gan aelod academaidd o staff sy'n bennaf gyfrifol am fyfyrwyr y flwyddyn integredig mewn diwydiant ac ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran, yn gweithio law yn llaw gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd.
- Yn eich blwyddyn gyntaf cewch arweiniad ar sut i archwilio cyfleoedd gyrfa a chryfhau eich cyflogadwyedd
- Yn eich ail flwyddyn byddwch yn cael help i chwilio am swyddi, ysgrifennu CV, llythyrau eglurhaol a gwneud ceisiadau. Byddwch yn derbyn ymarfer cyfweliad ffurfiol a chymeradwyaeth swyddogol i'ch lleoliad(au)
- Yn ystod eich Blwyddyn mewn Diwydiant byddwch yn cael cyswllt a chefnogaeth reolaidd a bydd goruchwyliwr academaidd yn ymweld â chi.

### Megan, Rhaglen Ffermwr Ifanc Blaengar McDonald's, y DU


Mae fy lleoliad gwaith gydag Avara Foods a Cargill Protein Europe. Rwy'n dilyn y dofednod o'r stoc bridio, deor a magu cywion brwylio hyd at brosesu sylfaenol yn y ffatri. Rwyf i wedi gweithio yn y tîm Datblygu Cynhyrchion Newydd yn ogystal ag ar lawr y ffatri, logisteg a chysylltiadau cwsmeriaid. Rwyf i'n gorffen y flwyddyn yn gweithio mewn bwyty McDonald's am 3 diwrnod, yn gweini'r cynnyrch terfynol.

Ar ôl fy mlwyddyn mewn diwydiant, rwy'n edrych ar fy ngradd o safbwynt cwbl wahanol; gallaf werthfawrogi nawr sut mae'n bosibl cymhwyso'r hyn rwyf i'n ei ddysgu yn y Brifysgol yn y sector amaethyddol. Byddwn i'n bendant yn argymell y rhaglen ac os ydych chi'n ystyried ymgeisio am leoliad gwaith y flwyddyn nesaf – cer amdani!



# Astudio trwy gyfrwng y Gymraeg

Gellir astudio pob cynllun gradd israddedig yn Adran Gwyddorau Bywyd yn rhannol drwy gyfrwng y Gymraeg. Mewn rhai cynlluniau gradd, mae dros hanner y modiwlau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.



Gallwch ddewis cyflwyno eich holl waith cwrs, yn cynnwys aseiniadau a chyflwyniadau llafar drwy gyfrwng y Gymraeg a chwblhau eich arholiadau ysgrifenedig yn Gymraeg, beth bynnag yw cyfrwng addysgu'r modiwl. Mae'r Adran hefyd yn sicrhau bod yr holl fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yn cael tiwtor personol a thiwtor traethawd hir sy'n gallu siarad yr iaith. Mae'r trefniadau addysgu hyn yn golygu bod ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gael i fyfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd Cymraeg.

Mae astudio drwy gyfrwng y Gymraeg yn fanteisiol mewn sawl ffordd. Mae'r manteision hyn yn cynnwys gwell cyfleoedd swyddi, cael eich addysgu mewn grwpiau llai a bod yn rhan o gymuned Gymraeg gyfeillgar a chroesawgar.

Bydd yr holl fyfyrwyr sy'n astudio modiwlau cyfrwng Cymraeg yn gymwys i dderbyn ysgoloriaeth astudio cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, werth hyd at £250 y flwyddyn. Ymhellach, mae llawer o gyrsiau gradd Adran Gwyddorau Bywyd yn gymwys am ysgoloriaethau israddedig y Coleg Cymraeg Cenedlaethol sydd werth £1500 dros dair blynedd.

I gael rhagor o wybodaeth am yr ysgoloriaethau hyn ac i gael rhestr o'r cynlluniau gradd cymwys gweler gwefan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol: **colegcymraeg.ac.uk/myfyrwyr/prifysgol**



# Ymchwil

Mae'r Adran Gwyddorau Bywyd yn ganolfan ymchwil ac addysgu a gydnabyddir yn fyd-eang sy'n cynnig cyfleusterau unigryw ar gyfer ymchwil mewn ymateb i heriau byd-eang fel diogelwch bwyd, bioynni a chynaladwyedd, ac effeithiau newid yn yr hinsawdd. Mae gwyddonwyr yn cynnal ymchwil ar enynnau a moleciwlau, organebau cyfan a'r amgylchedd.

Mae'r Ganolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion yn adnodd pwysig i lawer o'n gwyddonwyr cnydau. Mae'n cynnig y llwyfannau ffenoteipio arloesol diweddaraf â'r nod o gyflenwi datrysiadau ffenoteipio integredig ar gyfer rhywogaethau cnydau allweddol a model. Drwy ddefnyddio technolegau arloesol mae'n gallu mesur perfformiad a ffisioleg planhigion ar wahanol raddfeydd, o'r moleciwlaidd a'r cellol i lefel organ a phoblogaeth.

## Ymchwil Bioleg Planhigion ar gyfer y Fioeconomi Gynaliadwy

Mae'r grŵp hwn yn ymgymryd â bioleg planhigion a bridio a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n berthnasol i gynhyrchu biomas drwy gasglu a nodweddu germplasm perthnasol yn y canolfannau amrywiaeth; bridio croesrywiau cnwd uchel â gwydnwch yn erbyn sychder, oerfel a metel trwm i alluogi planhigion i dyfu ar diroedd ymylol yn yr hinsoddau cyfredol ac yn y dyfodol; a deall a thrin blodeuo a heneiddio er mwyn bridio gwell croesrywiau. Mae'r technegau allweddol a ddefnyddir yn ein hymchwil yn cynnwys rheoli maetholion, sefydlu nitrogen, ailgylchu potasiwm ac atafaelu carbon.

## Methodolegau Bridio

Prif ffocws y grŵp Methodolegau Bridio yw datblygu ymagweddau newydd at fridio planhigion, datblygu technolegau newydd ar gyfer genoteipio a ffenoteipio a chanfod sail enetig nodweddion sy'n ddefnyddiol i fridwyr a chadwraeth. Ymhlith y prif rywogaethau planhigion yr ymchwilir iddynt mae rhygwellt, codlysiau, ceirch, meillion a Miscanthus.

## Ecosystem Perfedd Llysyddion

Deall a thrin swyddogaeth rwmen yw diddordebau'r grŵp hwn. Nod allweddol yw lleihau allyriadau annymunol gan anifeiliaid cnoi cil, yn bennaf gwartheg a defaid, fel methan a nitrogen. Defnyddir ymagweddau moleciwlaidd, yn cynnwys dilyniannu DNA trwybwn uchel ar gyfer proffilio metagenomig a thrawsgriptomig, a dadansoddi metabolion di-darged. Gyda'r technolegau hyn rydym ni'n datblygu ac yn cymhwyso ymagweddau integreddiol i ecoleg ficrobaidd y defnydd o borthiant ac yn archwilio rhyngweithio bacteria, ffwng, siliadau a methanogenau.

## Bridio Planhigion er Lles y Cyhoedd

Ffocws y grŵp hwn yw'r potensial sydd gan welliannau genetig i gefnogi defnydd tir amlbwrpas a lleddfu effeithiau amgylcheddol yn ogystal ag ymdopi gyda phroblemau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Mae ymchwilwyr yn datblygu mathau arloesol o wair, meillion, ceirch a miscanthus sy'n cael effaith sylweddol yn y farchnad a defnydd terfynol. Drwy gyfuno ymagweddau confensiynol a moleciwlaidd at fridio planhigion gyda ffenoteipio trwybwn uchel, nod y grŵp yw datblygu mathau gwell o blanhigion a gaiff eu marchnata gan ein partneriaid masnachol.

## Systemau Anifeiliaid

Mae'r grŵp Systemau Anifeiliaid yn astudio ffyrdd mwy effeithlon o greu cynhyrchion anifail ansawdd uchel gyda phwyslais ar anifeiliaid cnoi cil (llaeth, eidion a defaid). Y nod yw datblygu systemau amaethyddol arloesol i gyflenwi gwelliannau mewn cynhyrchedd amaethyddol, diogelu amgylcheddol, sefydlogrwydd economaidd ac iechyd anifeiliaid, a systemau bwydo fydd yn gwella iechyd yr anifail ac ansawdd y cynnyrch anifail, fydd yn y pen draw yn arwain at ddefnyddwyr iachach.

# Uchafbwyntiau ymchwil

## Rhwydwaith Pencampwyr Rhagnodi Milfeddygol

Mae Rhwydwaith Pencampwyr Rhagnodi Milfeddygol, sydd wedi’i arwain gan Dr Gwen Rees o Brifysgol Aberystwyth yn gweithio i helpu milfeddygon i ragnodi gwrthfiotigau’n gyfrifol a gwella eu heffeithiolrwydd. Drwy hyfforddiant, rhoi technoleg newydd ar waith, casglu data, a gwella dealltwriaeth, mae’r rhaglen yn annog a dangos ffyrdd o leihau’r angen i ddefnyddio gwrthfiotigau a’r risg o ddatblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd. Mae'r rhaglen eisoes wedi rhoi cipolwg newydd i ni ar ddatblygiad a lledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac mae'r rhwydwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i sut mae gwrthfiotigau'n cael eu defnyddio yma yng Nghymru.





## Gallai tyfu cnydau dan do fod yn rhan allweddol o ddiogelwch bwyd y dyfodol

Ffermio fertigol yw broses o gynhyrchu bwyd drwy ei dyfu ar haenau wedi'u pentyrru  o fewn amgylcheddau wedi’u rheoli dan do. Mae’r dull hwn o dyfu bwyd yn helpu ffermwyr i gynhyrchu llawer mwy ar yr un faint o dir a lleihau'r effaith amgylcheddol, ac i osgoi her digwyddiadau tywydd eithafol y dyfodol.


Mae'r technoleg hon yw hanfodol er mwyn mynd i’r afael ag ansicrwydd bwyd o ganlyniad i newid hinsawdd. Gallai ffermio fertigol fod yn rhan allweddol o’n systemau cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Un o'r agweddau yr ydym ni’n edrych arno yw'r gallu i newid cynhyrchiant bwyd i amgylcheddau rheoledig yn gyflym.



## Sgriniau cyffwrdd ar gyfer ceffylau

Mae profion gwybyddol yn caniatáu ymchwilio i ranbarthau penodol o'r ymennydd a, gan ddefnyddio technoleg sgrin gyffwrdd ar y cyd â meddalwedd penodol, mae'n darparu offer unigryw i fesur gwybyddiaeth ceffylau a swyddogaeth yr ymennydd o dan amodau amgylcheddol gwahanol.

Mae ymchwil cyfredol yn Aberystwyth yn asesu sut y gall amgylcheddau newydd effeithio ar gwsg ceffylau a sut mae hyn yn amlygu ei hun wedyn fel newidiadau mewn gwybyddiaeth. Bydd ymchwil pellach sy'n defnyddio'r dechnoleg yn asesu a ellir canfod iselder mewn ceffylau trwy newidiadau mewn gallu gwybyddol.



Lluniau: Sebastian McBride



## Dadansoddiad DNA amgylcheddol i nodi cyfoethfannau trosglwyddo llyngyr yr afu ar ffermydd

Mae ein gwyddonwyr wedi datblygu dull arloesol ar gyfer dadansoddi DNA mewn samplau amgylcheddol i ganfod presenoldeb parasitiaid llyngyr sy'n heintio gwartheg a defaid a'u malwod lletyol rhyngol.

Mae'r dechneg hon bellach yn cael ei defnyddio mewn prosiect ymchwil mawr sy'n ymchwilio i ddeinameg haint llyngyr yr afu ar ffermydd Cymru a chanfyddiad ffermwyr o gyfoethfannau trosglwyddo clefydau a dichonoldeb strategaethau rheoli, a bydd pob un ohonynt yn arwain at ddatblygu modelau risg heintiau llyngyr yr afu newydd a chanllawiau rheoli cynaliadwy.



Llun: Rhys Jones

# Cyfleoedd byd-eang

**Mae tîm Cyfleoedd Byd-eang Aberystwyth yn cynnig ystod gyffrous o opsiynau i chi fynd dramor yn rhan o'ch gradd: o gyrsiau byr a chyfleoedd gwirfoddoli yn yr haf, i semester lawn neu flwyddyn dramor yn astudio mewn prifysgol sy'n un o'n partneriaid. Mae ein partneriaid yn cynnwys Norwy, Japan, Denmarc, Canada, Awstria, Sbaen, a Mecsico Newydd.**

Os byddwch yn dewis astudio gyda blwyddyn integredig dramor, mae'r Brifysgol yn eich galluogi i astudio am un neu ddau semester yn ystod eich trydedd flwyddyn, gan ddychwelyd i Aberystwyth ar gyfer eich blwyddyn olaf ac i raddio.

Dengys adroddiadau bod myfyrwyr sy'n astudio dramor yn fwy deniadol i gyflogwyr ac yn ennill mwy o arian na'u cyfoedion. Beth felly am fanteisio ar gyfle anhygoel a gwella eich sgiliau holl bwysig ar yr un pryd trwy ddewis astudio dramor?



# Y broses ymgeisio

## 1 Gwnewch gais trwy UCAS.com

Gwiriwch y dyddiad cau UCAS ar UCAS.com. Cod sefydliad Prifysgol Aberystwyth: A40. **COFIWCH:** Cewch rif UCAS 10 digid. Cadwch hwn wrth law oherwydd gofynnir am y rhif nifer o weithiau.

## 2 Bydd y Brifysgol yn ystyried eich cynnig

**COFIWCH:** Defnyddiwch Hwb UCAS i gadw llygad ar eich cais. Yn Aberystwyth rydym yn ceisio gwneud penderfyniad o fewn saith diwrnod.

## 3 Bydd y cynnig i'w weld ar Hwb UCAS

Bydd penderfyniad y Brifysgol yn cael ei ddangos ar Hwb UCAS - os ydych wedi derbyn cynnig, fe fyddwch yn gallu gweld pa raddau sydd angen arnoch i sicrhau eich lle.

## 4 Penderfynwch ble i fynd

Pan fyddwch wedi cael eich holl gynigion, bydd angen i chi benderfynu i ba brifysgol yr hoffech fynd, o fewn amser penodol. Dyma pryd y bydd angen i chi nodi pa brifysgolion fydd eich dewisiadau Cadarn ac Wrth Gefn.

## 5 Llety

Pan fyddwch wedi gwneud eich dewis Cadarn/Wrth Gefn gallwch wneud cais am lety.

## 6 Diwrnod y canlyniadau

Bydd Hwb UCAS yn dangos os yw eich lle wedi'i gadarnhau gyda'ch Dewis Cadarn. Os nad ydych wedi cael y graddau yr oeddech yn gobeithio, gallwch ystyried gwneud cais drwy Glirio.

## 7 Dechreuwch bacio!

Cofiwch gadw llygad ar eich e-byst am wybodaeth am eich diwrnod cyntaf a'r gweithgareddau croeso.

Adran Y Gwyddorau Bywyd
Prifysgol Aberystwyth,
Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DA

+44 (0) 1970 622021
derbyniadau@aber.ac.uk
@aberdlsagb.bsky.social
aberdlsagb




Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%